# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Eirin**

**Cartref Gofal Tŷ Eirin**
**Tretomas**
**Tonyrefail**
**Porth**
**CF39 8EE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Eirin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Harbour Healthcare SW Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 87 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Ionawr 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Yn ôl yr olwg, mae'r bobl yn hapus ac yn cael gofal da yng Nghartref Gofal Tŷ Eirin. Mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu'r person sy'n cael gofal a chaiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff gofal yn ymddangos yn wybodus, yn barchus ac yn ofalgar wrth ddarparu cymorth. Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n effeithiol a chaiff y risgiau posibl i lesiant y bobl eu hystyried a'u rheoli'n dda. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ac mae'n cynnig lefel eithriadol o gymorth i berthnasau. Dywed y bobl a'u perthnasau wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r gwasanaeth a'u bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt.

Mae digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân, ac mae digon o gyfarpar i ddiwallu anghenion y bobl. Mae prosesau recriwtio priodol ar waith. Mae'r staff yn cael cymorth cadarnhaol gan y tîm rheoli ac maent yn cael cynnig cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â hyfforddiant a sesiynau goruchwylio. Mae'r polisïau yn gadarn ac yn gyfredol ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn deall dymuniadau'r bobl ac yn cefnogi dewis. Mae datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael, er mwyn sicrhau bod y bobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth. Caiff cynlluniau personol ac adolygiadau eu cwblhau gan gynnwys y bobl a'u perthnasau. Caiff lleisiau'r bobl eu clywed drwy gyfarfodydd preswylwyr rheolaidd, arolygon a thrafodaethau â'r staff gofal, y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Pan fo angen, caiff cymorth eirioli ei drefnu i helpu'r bobl i fynegi eu barn a'u dymuniadau. Ar y cyfan, mae gan y bobl reolaeth dros eu penderfyniadau o ddydd i ddydd, gan gynnwys faint o'r gloch maent yn deffro, ble maent yn bwyta eu prydau, pa weithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt a ble maent yn treulio eu diwrnod.

Mae systemau ar waith sy'n cefnogi llesiant emosiynol a chorfforol y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am anghenion corfforol y bobl, eu dewisiadau unigol a'u harferion cyffredinol. Mae gwiriadau dyddiol parhaus yn sicrhau bod y bobl yn aros mor iach â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn rheoli meddyginiaethau yn effeithiol ac yn cadw cofnodion cywir. Dywed y bobl wrthym eu bod yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael a bod ganddynt gydberthnasau da â'r staff. Mae aelodau o'r teulu yn teimlo bod croeso iddynt pan fyddant yn ymweld â'r gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o weithgareddau creadigol a dychmygol eu cynnig i gefnogi llesiant y bobl. Caiff anghenion deietegol eu deall ond mae'r adborth am y prydau yn gymysg, ac mae angen gwella'r bwydlenni ymhellach.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Caiff y cyfleustodau a'r cyfarpar eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel. Mae'r safonau glendid a hylendid ym mhob rhan o'r adeilad yn dda. Mae digon o ardaloedd cymunedol ac ardaloedd bwyta ar gael. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli a'u haddurno i adlewyrchu chwaeth bersonol y bobl. Mae buddsoddiad a gwaith adnewyddu parhaus yn cefnogi llesiant cyffredinol y bobl.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau amrywiaeth o wiriadau recriwtio er mwyn sicrhau bod y broses ar gyfer penodi staff yn ddiogel. Rhoddir gwybod am ddamweiniau, digwyddiadau a phryderon diogelu mewn modd amserol. Mae pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd, arfarniadau blynyddol a hyfforddiant parhaus. Mae'r staff gofal yn gwybod sut i nodi arwyddion o gam-drin ac yn deall sut i roi gwybod am bryderon. Mae amrywiaeth o bolisïau a chanllawiau ar waith i gefnogi arferion da. Mae'r staff yn deall yr angen i sicrhau bod mesurau rheoli heintiau da ar waith. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer monitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Mae'r gwasanaeth yn cymryd camau rhagweithiol tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae dogfennaeth allweddol ar gael yn Gymraeg ac mae arwyddion Cymraeg i'w gweld ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Cyflogir nifer o staff sy'n siarad Cymraeg, a chynigir sesiynau dysgu Cymraeg i'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff. Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm sefydlog o staff sy'n eu hadnabod yn dda. Mae clychau galw o fewn cyrraedd a dywed y bobl wrthym fod y staff yn gwneud eu gorau i ymateb iddynt cyn gynted ag y gallant. Gwelsom nifer o enghreifftiau o ryngweithio cynnes drwy gydol ein hymweliad a gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r bobl mewn modd caredig a gofalgar. Mae'r trefniadau sydd ar waith i berthnasau ymweld â'r cartref yn hyblyg, ac maent yn cadarnhau bod y staff bob amser yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Mae'r sylwadau yn cynnwys: *"It's a really good place", "Everyone is well looked after", "Staff are very good – friendly and helpful.", "it's so lovely here I really like it the staff are amazing and kind."*

Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cynnig arweiniad ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl. Mae'r darparwr yn cwblhau proffil personol sy'n rhoi darlun clir o hoff bethau, cas bethau, arferion a diddordebau'r unigolyn. Mae amrywiaeth o asesiadau a chynlluniau yn helpu'r staff i ddeall sut i gadw'r bobl yn ddiogel ac yn iach yn gorfforol ac yn emosiynol. Mae'r cofnodion monitro dyddiol yn helpu'r staff i nodi newidiadau o ran anghenion iechyd y bobl. Caiff atgyfeiriadau at amrywiol weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eu cwblhau yn ôl yr angen. Mae cyfarfod trosglwyddo dyddiol a gynhelir ar ddiwedd pob shifft yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o anghenion cyfredol diweddaraf y bobl.

Caiff anghenion deietegol y bobl eu deall. Roedd y cinio a ddarparwyd ar ddiwrnod yr arolygiad yn edrych yn ddigonol ac o safon dda. Dywedodd rhai o'r bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r prydau a ddarperir, ond nododd eraill nad oedd ansawdd ac amrywiaeth y prydau yn cyrraedd eu safonau neu eu bod yn rhy gyfyngedig. Dywedodd y staff wrthym weithiau fod diffyg amrywiaeth yn y prydau piwrî ac y gellid gwella'r cyflenwad mewn perthynas â rhai eitemau penodol. Cadarnhaodd aelodau'r tîm rheoli eu bod wrthi'n ymdrin â'r materion hyn.

Gall y bobl dreulio amser yn ymgymryd â gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae tîm brwdfrydig o gydgysylltwyr yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau arloesol. Yn ogystal â darllen llyfrau, dosbarthiadau Cymraeg, celf a chrefft, boreau i ddynion a sesiynau coginio, mae nifer o ddigwyddiadau tymhorol a digwyddiadau thema hefyd yn cael eu cynnig i'r bobl. Mae gan y gwasanaeth 'ffynnon ofuned' lle gall y bobl gyflwyno dymuniadau personol, ac mae'r tîm o staff yn ymdrechu i'w cyflawni. Gall y bobl ymgymryd â gweithgareddau pwrpasol a oedd o bosibl yn rhan o'u gyrfaoedd blaenorol, er enghraifft, helpu'r tîm cynnal a chadw i gwblhau tasgau DIY. Mae'r gwasanaeth yn cynnig esiampl i'r sector wrth ddarparu sesiynau grŵp cymorth i berthnasau sydd wedi cael gofal yn Nhŷ Eirin o'r blaen, sy'n cael gofal yno ar hyn o bryd neu a fydd o bosibl yn cael gofal yno yn y

dyfodol. Mae'r grŵp hwn yn galluogi'r perthnasau i drafod profiadau cyffredin ac i siarad ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol.

Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio system cofnodi electronig er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rhoi'n ddiogel. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel, a chaiff gwiriadau tymheredd eu cwblhau er mwyn sicrhau y cynhelir y tymereddau storio cywir.

## Yr Amgylchedd

Mae'r adeilad yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod ardaloedd risg uchel fel ardaloedd meddyginiaeth, ystafelloedd golchi dillad a chypyrddau glanhau wedi'u cloi'n ddiogel. Mae'r ardaloedd cymunedol yn lân ac nid oes unrhyw eitemau diangen ynddynt, ac mae'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng pe bai angen iddynt adael yr adeilad. Mae'r profion diogelwch nwy a thrydan yn gyfredol a chaiff yr holl gyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd. Caiff ymarferion a gwiriadau tân eu cwblhau'n rheolaidd. Dywed y staff cadw tŷ wrthym fod digon o gyflenwadau a chyfarpar ar gael iddynt a bod digon o staff yn rhan o'r tîm. Dywedodd staff y gegin wrthym fod eitemau bwyd yn cyrraedd yn rheolaidd, ac y gellir prynu cynhwysion ychwanegol os bydd angen. Ar hyn o bryd, mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o 2 (mae angen rhai gwelliannau). Rhoddodd aelodau'r tîm rheoli sicrwydd eu bod yn canolbwyntio ar y maes hwn ar hyn o bryd er mwyn helpu i wneud gwelliannau.

Mae'r amgylchedd yn addas ac yn gwella llesiant cyffredinol y bobl. Mae'r ystafelloedd gwely unigol yn cynnwys eitemau personol, ffotograffau teuluol ac eitemau o ddodrefn personol. Gall y bobl ddewis aros yn eu hystafelloedd neu ddychwelyd i'w hystafelloedd yn ystod y dydd. Mae nifer o welliannau cosmetig wedi cael eu gwneud gan gynnwys paentio waliau a gosod llenni a deunyddiau newydd. Mae digon o le yn y coridorau ac maent wedi'u haddurno'n hyfryd gan ddilyn themâu penodol neu ddefnyddio lluniau. Mae ystafell fwyta a lolfa gymunedol ar gael i'r bobl ar bob llawr lle gallant dreulio amser yng nghwmni pobl eraill. Ar y llawr gwaelod, defnyddir ystafell ddydd gymunedol fawr i gynnal digwyddiadau â thema a sesiynau gweithgareddau mwy. Mae gan bob uned ardd a lle i eistedd yn yr awyr agored. Dangosodd un person dŷ gwydr bach i ni lle mae'n mwynhau tyfu llysiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae sawl system ar waith er mwyn helpu i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r cofnodion o ymweliadau misol yr Unigolyn Cyfrifol bob tri mis yn dangos bod adborth yn cael ei gasglu gan y bobl, eu perthnasau a'r staff. Gwelsom dystiolaeth fod yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn ystyried ansawdd y gwasanaethau a ddarperir drwy adroddiad sicrhau ansawdd manwl bob chwe mis. Mae'r rheolwr yn cerdded o amgylch y cartref bob dydd er mwyn sicrhau bod safon y gofal a'r cymorth a ddarperir yn gyson. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn chwarae rhan weithredol ac yn bresennol yn y gwasanaeth ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'r rheolwr i ystyried nodau ar gyfer y dyfodol a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer y bobl.

Mae trefniadau ar waith er mwyn helpu i redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae amrywiaeth o bolisïau manwl yn darparu canllawiau i'r staff gofal ac yn cefnogi arferion gofal da. Caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal mewn meysydd craidd fel rheoli meddyginiaeth a chwblhau siartiau a chofnodion monitro. Mae’r tîm rheoli yn rhoi gwybod yn gyson i’r asiantaethau priodol am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau o bwys. Caiff cofnodion electronig a chofnodion papur eu storio'n ddiogel. Mae gwybodaeth ar gael i'r bobl sy'n nodi sut i godi pryder ac mae polisi cwyno cyfredol ar waith. Mae'r staff yn deall eu dyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu ac maent yn teimlo'n hyderus y byddai'r tîm rheoli yn gweithredu i ymdrin â phryderon o'r fath.

Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer priodol o staff, ac ar y cyfan, mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae rotas y staff yn dangos bod nifer digonol o staff ar ddyletswydd. Mae llawer o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac maent yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda iawn. Dywedodd staff gofal newydd eu penodi wrthym eu bod yn cael cyfnod sefydlu a bod cymorth parhaus ar gael iddynt. Yn gyffredinol, dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith a'u bod yn teimlo y gallant fynd at aelodau o'r tîm neu'r tîm rheoli am gymorth a chyngor. Mae sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol
*“The managers are very supportive and encouraging, I can always speak to someone”,*
*“We see the manager; she comes on the unit to see us.”*
Dywedodd un o'r preswylwyr wrthym *“I can always speak to the manager if there is a problem”.*

Mae'r systemau recriwtio a hyfforddi yn ddiogel ac yn gadarn. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y staff yn cael digon o hyfforddiant i allu cyflawni eu dyletswyddau. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael hyfforddiant rheolaidd a'u bod yn teimlo eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol i ddarparu gofal. Roedd y ffeiliau recriwtio yn drefnus, ac yn cynnwys gwybodaeth i sicrhau bod y staff yn addas ac yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol. Mae gan bob aelod o'r staff yn y gwasanaeth dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac maent wedi'u cofrestru â rheoleiddwyr Gofal Cymdeithasol Cymru.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Ni chaiff y cofnodion eu cwblhau'n gyson yn unol â chynlluniau personol ac nid yw'r cynlluniau bob amser yn cynnwys gwybodaeth gyfredol. | Cyflawnwyd |
| 16 | Ni welsom dystiolaeth fod y gwasanaeth wedi ymgynghori â'r bobl a'u perthnasau wrth gynnal adolygiadau. | Cyflawnwyd |
| 58 | Ni chaiff y cofnodion rhoi meddyginiaeth eu cynnal yn gywir bob amser. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/11/2023